**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Mehefin 2022

Annwyl Gadeirydd

**MAES AWYR CAERDYDD**

Ysgrifennaf atoch i roi diweddariad ysgrifenedig i aelodau'r Pwyllgor ar Faes Awyr Caerdydd cyn sesiwn nesaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 29 Mehefin. Byddaf yn mynychu'r sesiwn honno.

Cytunodd fy rhagflaenydd Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, i ysgrifennu at y Pwyllgor bob chwe mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y maes awyr gan gynnwys ei gytundebau benthyca. Dylech drin hwn fel diweddariad bob chwe mis y mae'r Pwyllgor yn gofyn amdano.

**Achub ac ailstrwythuro**

Fel yr amlinellwyd yn y papur tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor ar 3 Tachwedd 2021, cytunodd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020 ar fuddsoddiad ar ffurf grant o hyd at £42.6 miliwn dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig (CIAL). Mae £19 miliwn o'r grant hwn wedi'i dynnu i lawr hyd yma.

**Benthyciadau masnachol**

Ar yr un pryd, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddileu £42.6 miliwn o gyfanswm dyled y Maes Awyr o £69.8 miliwn (gan gynnwys llog cronnus). Y ddyled a oedd yn weddill yn dilyn hynny oedd £27.2 miliwn ar 6 Mai 2021 ac mae modd adennill y swm hwn yn llawn. Bydd yr ad-daliadau benthyciad yn dechrau ym mlwyddyn ariannol 2031/32 a dylai'r Maes Awyr fod mewn sefyllfa i ad-dalu gweddill gwerth y ddyled i Lywodraeth Cymru erbyn 2045. Nid yw'r sefyllfa hon wedi newid ers y diweddariad diwethaf.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

**Sefyllfa Cwmnïau Hedfan yn Gweithredu yn CIAL**

Mae KLM, TUI, Vueling, Ryanair a Logan Air i gyd yn parhau i weithredu teithiau hedfan o Gaerdydd, er eu bod ar raglen lai na'r arfer. Mae'r diwydiant ar y cyfan yn dal i wella o'r pandemig ac, ers llacio'r cyfyngiadau'n ddiweddar, mae'r Maes Awyr eisoes yn gweld tystiolaeth o alw sylweddol am deithio awyr.

Mae Vueling wedi cynyddu ei lwybr Paris Orly – Caerdydd i deirgwaith yr wythnos yn ddiweddar ac mae'n parhau i weithredu i Alicante, Malaga a Palma De Mallorca. Mae KLM yn parhau â'i daith uniongyrchol i Amsterdam. Mae Ryanair yn parhau i weithredu pedair awyren yr wythnos rhwng Caerdydd a Dulyn, ac mae hefyd yn gweithredu i Malaga a Faro. Mae Logan Air yn parhau â'i wasanaeth Caerdydd - Caeredin. Mae TUI yn parhau i weithredu i Alicante, Gran Canaria, Malaga, Lanzarote, De Tenerife a Paphos.

**Wizz Air**

Yn ddiweddar, lansiwyd canolfan awyr newydd Wizz Air ym Maes Awyr Caerdydd ar 8 Ebrill 2022. Bydd y ganolfan newydd yn cysylltu Cymru â naw cyrchfan, gan roi mwy o gyfleoedd teithio i deithwyr lleol.

Y naw llwybr y bydd y Cwmni Hedfan yn eu gweithredu yw: Tenerife, Lanzarote, Faro, Alicante, Palma de Mallorca, Corfu, Crete, Cyprus a Sharm El Sheikh.

Roeddem yn falch bod Wizz Air wedi dewis buddsoddi ymhellach yng Nghymru drwy ddod yn noddwr teitl Hanner Marathon Caerdydd. Bydd y nawdd yn gyfle i godi proffil Cymru i gynulleidfa ryngwladol, tra'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r llwybrau newydd sydd ar gael yn y Maes Awyr.

**Canlyniad adolygiad llywodraethu Holdco ar gyfer CIAL**

Yn dilyn adolygiad llywodraethu mewnol o WGC Holdco Limited, mae Gweinidogion wedi cytuno i ddau Gyfarwyddwr Anweithredol newydd ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Holdco, yn lle'r ddau Uwch Was Sifil (SCS). Bydd y Cyfarwyddwr Anweithredol presennol yn cael ei gadw, yn ogystal â swydd ar gyfer un SCS ar y Bwrdd.

Rwy'n gobeithio y bydd y newidiadau hyn yn ateb galwadau Pwyllgorau blaenorol am fwy o annibyniaeth gan Lywodraeth Cymru pan ddaw'n fater o wneud penderfyniadau masnachol sy'n ymwneud â'r Maes Awyr. Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn gwella'r arbenigedd masnachol ar y Bwrdd, gan y bydd y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael eu penodi gyda phrofiad ac arbenigedd addas.

Rydym yn gweithio gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr presennol Holdco ac Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i sicrhau bod penodiadau'n cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu ar gyfer proses Penodiadau Cyhoeddus a reoleiddir yn llawn, ac yn yr



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

un modd i sicrhau bod y lefel gywir o brofiad ac arbenigedd yn cael ei sicrhau. Bydd proses recriwtio fewnol ar wahân yn cael ei chynnal i benodi SCS newydd i'r Bwrdd.

**Newid Hinsawdd**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau y mae hedfan yn eu creu i gyrraedd ein targedau ar ddatgarboneiddio, ond mae hefyd yn cydnabod y manteision a ddaw yn ei sgil i economi Cymru gyfan.

Lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar 'Jet Zero' yn 2021, a oedd yn ymdrin â sawl cam gweithredu posibl ar draws meysydd effeithlonrwydd tanwydd; datblygu awyrennau dim allyriadau; cyflymu'r cyflenwad o danwyddau hedfan cynaliadwy a'r defnydd ohonynt; moderneiddio gofod awyr a meysydd awyr y DU; a datblygu marchnadoedd dilysadwy i wrthbwyso allyriadau gweddilliol.

Ym mis Medi 2019, lansiodd Maes Awyr Caerdydd ei Lwybr Hedfan Amgylcheddol sy'n fframwaith a ddatblygwyd i olrhain llwyddiannau amgylcheddol a chynaliadwyedd sydd eisoes wedi'u cyflawni, tra'n nodi nodau tymor byr uniongyrchol. Mae'r Maes Awyr yn bwriadu diweddaru ei lwybr hedfan amgylcheddol yn 2022 drwy gyhoeddi targedau diwygiedig i gyflawni Carbon Sero Net.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r fenter ‘Jet Zero’, yn ogystal â'r Maes Awyr, i leihau effeithiau amgylcheddol awyrennau.


**Gwasanaeth Awyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (PSO) Caerdydd-Ynys Môn**

Ysgrifennais atoch ar 8 Mehefin 2022 i dynnu sylw'r Pwyllgor at Ddatganiad Ysgrifenedig gan Weinidog Cymru dros Newid Hinsawdd, ynghylch Gwasanaeth Awyr PSO Caerdydd-Ynys Môn.

Gellir gweld y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yma:
[Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Gwasanaeth Awyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Ynys Mon – Caerdydd (8 Mehefin 2022) | LLYW.CYMRU]

Edrychaf ymlaen at gwrdd â’r Pwyllgor ar 29 Mehefin.

Yn gywir



**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol - Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.